Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont
Ystum Taf
Caerdydd
CF14 2JL

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gyfun Gymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1498 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 1184 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 313 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.3%) | 7.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 9.0%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 49.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Agwedd nodedig o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yw'r uchelgais, annibyniaeth a balchder yn eu Cymreictod y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn eu harddangos. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas y safle, gan drin eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae'r llywodraethwyr ac arweinwyr ar bob lefel yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwelliant a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae cyswllt agos rhwng prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a dysgu proffesiynol yr ysgol, ac o ganlyniad, mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r gefnogaeth ar gyfer lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion o fewn a thu hwnt i'r gwersi. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn diwallu dyheadau ac anghenion disgyblion. Serch hyn, mae cwricwlwm presennol Blwyddyn 9 yr ysgol yn cyfyngu ar ehangder y profiadau. Mae'r disgyblion yn elwa o ystod gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn adeiladu dealltwriaeth disgyblion a'u paratoi i ymdopi â thasgau sy'n eu herio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r annibyniaeth ac uchelgais y mae'r disgyblion yn eu harddangos, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n galed yn eu gwersi. Maent yn cyfrannu'n gryf at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy gefnogi disgyblion iau gyda datblygu eu medrau.

Mae gweithdrefnau effeithiol i hybu presenoldeb ac ymddygiad da, ac i gefnogi lles disgyblion. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion fynegi barn a datblygu medrau arweinyddiaeth yn gryfder.

Mae cefnogaeth gadarn yn cael ei darparu i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yng Nghanolfan Ethni, sef uned anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol sydd yn rhan o'r ysgol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn tracio cynnydd y disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu wedi eu teilwra i anghenion y disgyblion. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion yn dda, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y ganolfan yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u sgiliau bywyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at yr amrediad llawn o brofiadau dysgu hyd ddiwedd Blwyddyn 9 i gydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru

A2 Lledaenu'r arferion addysgu arbennig a welwyd yn y gwersi gorau er mwyn cryfhau ansawdd yr addysgu hyd yn oed ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r modd mae'r ysgol:

- wedi blaenoriaethu addysgu disgybl ganolog, cryfhau llais y disgybl a chefnogi lles disgyblion er mwyn gwella ymrwymiad disgyblion at ddysgu a'u hymddygiad.
- yn hyrwyddo cydraddoldeb

i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn gryfder nodedig. Ym mron bob achos, mae athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol dda, ac yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn creu awyrgylch braf a phwrpasol sy’n hyrwyddo’r dysgu yn effeithiol. Maent yn cyfarwyddo’r dysgu’n fwriadus ac yn rhoi esboniadau clir a defnyddiol i’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn arddangos awch i ddysgu.

Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith effeithiol sy’n cyflwyno ac egluro geirfa allweddol yn fedrus. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio gwersi’n fwriadus ac mae’r gweithgareddau a ddarperir yn cynnig lefel her sy’n gweddu’n addas i anghenion disgyblion. Mae’r athrawon hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio’n  annibynnol ar dasgau. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu dycnwch a’u medrau meddwl yn dda. Mae llawer o athrawon yn gwirio gwaith disgyblion yn effeithiol ac yn rhoi anogaeth ac adborth defnyddiol sy’n eu cynorthwyo i gwblhau tasgau i safon uchel. Maent yn holi cwestiynau caeedig yn bwrpasol er mwyn cynorthwyo disgyblion i adalw gwybodaeth flaenorol a gwirio’u dealltwriaeth. O ganlyniad, caiff camsyniadau eu hadnabod a’u datrys yn brydlon. Mae disgyblion yn y gwersi hyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn.

Mewn lleiafrif o wersi, mae’r addysgu’n nodedig o gryf, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn:

- cyflwyno’n ysbrydoledig, yn angerddol dros eu pwnc ac mae ganddynt frwdfrydedd heintus
- tynnu’n fedrus ar eu gwybodaeth bynciol er mwyn torri’r dysgu yn gamau llai y gall disgyblion ymdopi â nhw
- cynnig esboniadau o ansawdd uchel a modelu eu disgwyliadau yn gelfydd
- paratoi disgyblion er mwyn eu galluogi i lwyddo’n annibynnol gyda thasgau heriol
- defnyddio dulliau holi yn fedrus i brocio ac archwilio syniadau disgyblion, gan eu hannog i esbonio a chyfiawnhau eu hymatebion
- cynllunio’n fedrus er mwyn datblygu medrau disgyblion ynghyd â’u gwybodaeth a’u medrau pynciol

Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn yr addysgu yn cyfyngu ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Yn y gwersi hyn, nid oes disgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, nid yw athrawon yn rhagweld camsyniadau yn ddigon cyflym, neu maent yn gor-gyfarwyddo gyda chyflwyniadau ac esboniadau  rhy hir.

Yn gyffredinol, mae ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig athrawon ar waith a chynnydd disgyblion yn amrywio rhwng ac o fewn adrannau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r adborth yn rhoi cyngor gwerthfawr ar yr union bethau sydd angen i'r disgybl eu gwella. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb yn llawn i gyngor athrawon, ac o ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd pellach yn eu dysgu. Lle mae'r adborth yn llai effeithiol, nid yw bob tro'n rhoi cyngor digon penodol ar sut i wella, ac mewn rhai achosion, mae'n rhy ganmoliaethus neu'n rhy gyffredinol.

## Cwricwlwm

Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer ei chwricwlwm wedi ei seilio ar ddatblygu balchder o hanes a diwylliant cyfoethog 'ein cefndiroedd, ein prifddinas a'n gwlad'. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu medrau disgyblion a sicrhau cwricwlwm uchelgeisiol sy'n berthnasol i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n fwriadus ag ysgolion cynradd partner wrth gynllunio darpariaeth sy'n sicrhau datblygiad cynyddol o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder addas ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac 8; fodd bynnag, cyfyngir ar ehangder y cwricwlwm i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9.

Cryfder nodedig o fewn y cwricwlwm yw'r cynllunio bwriadus i addysgu disgyblion am gydraddoldeb, herio rhagfarnau a dathlu amrywiaeth yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o brofiadau a safbwyntiau'r  ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae hyn yn treiddio i gynlluniau gwaith  mwyafrif y pynciau, er enghraifft gwaith ar hawliau merched yn Affganistan mewn gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg, a gwaith ar ffoaduriaid drwy astudio detholiad o stori fer 'Rhyngom' mewn gwersi drama. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i barchu eraill.

Mae'r rhaglen iechyd a lles yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm. Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr, perthnasol ac amserol i ddisgyblion ddysgu am themâu pwysig fel diogelwch ar-lein, camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddiwylliant ysgol gyfan o ddiogelu a pharch. Mae darparwyr ac ymwelwyr allanol yn dod i'r ysgol yn gyson i gyfoethogi'r ddarpariaeth hon. Mae'r ddarpariaeth wedi ei chynllunio'n effeithiol gan sicrhau ei bod yn adeiladu'n bwrpasol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol  disgyblion. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gadarn. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o ddata holiaduron lles, systemau diogelu'r ysgol ac o wybodaeth gyfredol am faterion cymdeithasol er mwyn addasu a theilwra'r rhaglen i dargedu pryderon o fewn blynyddoedd penodol.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i farn a dyheadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm 14-16 ac ôl-16. Trwy gydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill cyfagos, mae'r ysgol yn cynnig ystod addas ac eang o bynciau cyffredinol a

galwedigaethol, er enghraifft economeg, troseddeg a pheirianneg. O ganlyniad, mae arlwy dewisiadau'r ysgol yn diwallu anghenion bron bob disgybl. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu treftadaeth a dathlu Cymreictod mewn byd aml-ddiwylliannol. Mae gwersi 'Coron Gwlad' ym Mlwyddyn 7 yn archwilio hunaniaeth drwy gyflwyno hanes lleol a chenedlaethol, taith sefydlu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a datblygiad yr iaith Gymraeg. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yr ysgol yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r ystod eang a helaeth iawn o brofiadau a chyfleoedd allgyrsiol a ddarperir i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i ehangu profiadau'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys clybiau a gweithgareddau niferus yn yr ysgol; ymweliadau lleol, er enghraifft i theatrau ac orielau; a theithiau preswyl, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iawn i gefnogi datblygiad creadigol disgyblion o fewn gwersi'r celfyddydau mynegiannol a thu hwnt. Mae'r disgyblion yn cael budd o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol cyson megis sioeau cerdd, cerddorfa a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau. Mae cyfranogiad disgyblion yn y gweithgareddau hyn yn drawiadol o uchel. Mae hyn oll yn sicrhau datblygiad cymdeithasol, ysbrydol, moesol a diwylliannol cadarn i'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd datblygu eu ffitrwydd a byw bywyd iach. Mae llawer yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau o fewn gwersi addysg gorfforol a thrwy arlwy gyfoethog o gyfleoedd chwaraeon allgyrsiol. Nodwedd gref o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion hyfforddi ac arwain eu cyfoedion a datblygu eu hannibyniaeth a'u dycnwch.

## Llythrennedd

Mae arweinwyr yn darparu arlwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i staff er mwyn datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Nodwedd gref yw'r wefan llythrennedd sy'n cynnwys llu o adnoddau pwrpasol, strategaethau amrywiol i'w defnyddio ac enghreifftiau o arferion da i'w rhannu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau ei gilydd ac ar gyfarwyddiadau'r athro. Mae llawer yn hapus i gyfrannu'n gadarnhaol at drafodaethau dosbarth, gan fynegi eu hunain yn glir. Mae'r mwyafrif yn adeiladu'n briodol ar gyfraniadau eu cyfoedion, ac mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn aeddfed wrth weithio mewn parau neu grwpiau. Mae llawer yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir i gefnogi eu cyfraniadau ac yn esbonio eu syniadau'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa o ddefnyddio matiau iaith er mwyn cyfoethogi eu hymatebion neu werthuso gwaith ei gilydd ar lafar. Mae'r lleiafrif yn mynegi eu hunain yn eithriadol o effeithiol ac yn strwythuro eu hymatebion yn fedrus, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog yn gelfydd. Mae

llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn briodol yn y Gymraeg mewn gwersi pan gânt gyfleoedd i weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn troi at y Saesneg wrth wneud gwaith grŵp neu waith pâr.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau yn gywir gan ddefnyddio terminoleg bynciol yn addas. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu ac yn strwythuro'u gwaith yn bwrpasol gan ddefnyddio paragraffau'n synhwyrol. Mae lleiafrif y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig soffistigedig gan arddangos dealltwriaeth dda iawn o gynulleidfa a phwrpas y darn. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir o ran cystrawen, gramadeg a sillafu, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol yn britho gwaith ychydig o ddisgyblion.

## Darllen

Mae'r ysgol wedi cydnabod pwysigrwydd gwella medrau darllen disgyblion ac wedi ei osod yn flaenoriaeth ar draws yr ysgol gyfan. Maent eisoes wedi dechrau ar y daith o ddatblygu diwylliant darllen. Mae gwefan '*Deffro'r Dychymyg'* yn ddatblygiad arloesol a chyffrous. Mae'n wefan gynhwysfawr, liwgar ac apelgar sydd wedi cael ei chreu er mwyn cynyddu diddordeb a hybu mwynhad o ddarllen ymhlith disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall testunau yn briodol. Mae llawer yn lleoli gwybodaeth yn hyderus ac yn cywain gwybodaeth o destunau gan adlewyrchu'r prif negeseuon. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn copïo gwybodaeth yn hytrach na'i chrynhoi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i adnabod ac esbonio nodweddion arddull yn addas, gyda lleiafrif yn gwneud hyn yn fedrus iawn gan esbonio pa effaith a gaiff y nodweddion ar y darllenydd yn gelfydd yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae lleiafrif y disgyblion yn dadansoddi testunau llenyddol yn aeddfed ac effeithiol, er enghraifft wrth ystyried darn o destun o 'The Bees' yn y gwersi Saesneg. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ymateb yn arwynebol i destunau llenyddol. Mae'r lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol Er enghraifft, maent yn defnyddio dull 'Darllen Dwyochrog' i ragfynegi, cwestiynu, egluro a chrynhoi'n bwrpasol.

Mae trefniadau pontio'r ysgol yn adnabod ac yn cefnogi disgyblion sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 â medrau darllen gwan. Defnyddir profion sylfaenol a gwybodaeth gan staff i adnabod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn gweithredu strategaethau i sicrhau dull cyson ar draws y clwstwr, gan ganolbwyntio ar ddefnydd priodol o iaith a geirfa bynciol. Yn ogystal, mae ymyraethau yn yr 'Hafan Roger Boore' yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen a chynyddu eu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau darllen yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd darllen. Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau darllen ac mae llawer yn cael y cyfle i ddarllen gwaith gan awduron poblogaidd

ac am destunau sydd o ddiddordeb iddyn nhw yn yr ysgol. Mae mwyafrif hefyd yn cytuno bod athrawon yn eu hannog nhw i ddarllen mewn pynciau heblaw rhai Cymraeg neu Saesneg. Mae darllen ar goedd o fewn gwersi yn cael ei ddefnyddio’n gyson er mwyn gwella hyder  disgyblion, ac o wneud, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, a mwyafrif y disgyblion yn amrywio goslef a thôn. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gallu bod yn dawedog ac yn cael trafferth ynganu geiriau cymhleth.

### Rhifedd

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg o fewn gwersi’r pwnc hwn. Mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau. Yn gyffredinol, mae’r cyfleoedd hyn yn cynnig lefel her addas i ddisgyblion, a nodwedd gref o’r ddarpariaeth rhifedd draws-gwricwlaidd yw’r modd mae wedi ei chynllunio fel bod tasgau bob amser yn cyfoethogi’r dysgu o fewn y pwnc hwnnw. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol cryf sy’n gosod sail gadarn ar gyfer pob elfen o fathemateg a rhifedd. Maent yn defnyddio’r pedair rheol yn hyderus ac mae gafael gadarn ganddynt ar ffracsiynau, canrannau, cymarebau a degolion. Yn eu gwersi mathemateg, maent yn arddangos dealltwriaeth dda o ffurf safonol, ac yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o hafaliadau i ddatrys problemau. Yn eu gwersi addysg gorfforol, maent yn arddangos rhuglder mathemategol wrth gyfrifo faint o ymarfer sydd angen iddynt ei wneud i losgi’r caloriau wrth fwyta pryd o fwyd o fwyty poblogaidd.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o gysyniadau sy’n ymwneud â geometreg a mesuriadau ac mae cyfran debyg yn dadansoddi data yn effeithiol. Maent yn datrys problemau sy’n ymwneud â chyfartaleddau a phlotio amrywiaeth o graffiau yn gywir. Mae llawer yn dadansoddi graffiau er mwyn dod i gasgliadau ac adnabod tueddiadau. Mae gan leiafrif y disgyblion fedrau rhifedd cryf. Maent yn arddangos rhuglder wrth weithio gyda chysyniadau cymhleth fel syrdiau ac mae medrau algebra datblygedig ganddynt. Mewn ychydig o achosion, nid yw medrau rhif sylfaenol disgyblion wedi eu datblygu’n llawn. Golyga hyn eu bod yn cael trafferth gwneud gweithgareddau fel dehongli graddfa anghyfarwydd neu ddatrys problemau sy’n cynnwys rhifau negyddol.

## Digidol

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau digidol datblygedig yn eu gwersi technoleg gwybodaeth drwy waith codio i raglennu, creu gemau a chynhyrchu animeiddiadau. Ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gasglu, dadansoddi a dehongli data drwy greu graffiau, siartiau a thaenlenni gyda fformiwlâu cymhleth. Er enghraifft, yn eu gwersi addysg gorfforol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio data ymarfer ac amrywiaeth o feddalwedd i gyflwyno graffiau ar berfformiad mewn chwaraeon. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddefnyddio offer digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn cynhyrchu cynnwys digidol pwrpasol sy'n defnyddio amrediad o feddalwedd i gymhwyso egwyddorion dylunio yn effeithiol. Er enghraifft, trwy brosiect busnes ym Mlwyddyn 8, defnyddir offer digidol yn greadigol i ddatrys problemau a datblygu 'Pentref Taf'.

## Chweched dosbarth

Mae gan ddisgyblion y chweched dosbarth agwedd aeddfed at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos annibyniaeth a gwir ddiddordeb yn yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn gweithio'n galed yn eu gwersi. Mae ganddynt fedrau meddwl datblygedig ac maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda, gan ei gymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Er enghraifft, yn eu gwersi economeg, mae disgyblion yn cymhwyso'r syniad o gyflenwad anelastig i sefyllfa lle mae tollau'n cael eu cyflwyno ar fewnforion dur. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda mewn gwersi. Maent yn cyfrannu'n frwd i drafodaethau grŵp a thrafodaethau dosbarth gan ddefnyddio terminoleg bynciol yn effeithiol wrth gynnig esboniadau estynedig o'u rhesymeg. Mae'r disgyblion yn holi eu cwestiynau eu hunain ac yn ymateb yn adeiladol ac aeddfed i adborth yr athro gan wneud gwelliannau i'w gwaith.

## Canolfan Ethni

Yng nghanolfan Ethni, mae staff yn trefnu profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion o fewn yr uned ac wrth i ddisgyblion ymuno â'u cyfoedion yn y sesiynau prif ffrwd. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae'r system asesu a thracio drwyadl yn caniatáu i athrawon a staff cefnogi gynnig gwaith sydd ar y lefel her gywir. Defnyddiant y dull cyfathrebu cyfansawdd yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio arwyddo, mynegiant wyneb, byrddau craidd ac amserlenni gweledol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yr hyn sy'n digwydd a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu medrau. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas tu allan i'r ystafell ddosbarth gyda theithiau cyson i'r gymuned a theithiau ysgol gyfan gyda'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda yn y gwersi ac yn ymgymryd yn llawn â'r gweithgareddau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson dda, yn enwedig wrth wella eu sgiliau bywyd.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r tîm lles, presenoldeb ac ymddygiad yn arwain gyda gweledigaeth glir a phendant sy’n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pob disgybl yn teimlo’n hapus ac yn barod i ymgysylltu â’u dysgu o’r cychwyn cyntaf. Mae hyrwyddo a chynnal lles disgyblion yn sylfaen i’w gwaith, ac mae ymroddiad staff i gefnogi disgyblion i ddatblygu’n unigolion hyderus ac annibynnol yn nodwedd amlwg o’u gwaith. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cefnogol a pharchus â disgyblion. Mae eu hymrwymiad i wrando ar farn disgyblion a gweithredu ar faterion lles yn gryfder nodedig. Mae’r ysgol yn teilwra’r ddarpariaeth yn effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae staff yn ‘Ystafell Keri’, ‘Hafan Roger Boore’ a’r ystafell adlewyrchu yn darparu cymorth pwrpasol sy’n galluogi’r ychydig ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth ychwanegol i ailymgysylltu â’u dysgu. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag ystod o asiantaethau allanol, gan gynnwys gweithiwr ieuenctid a nyrs, sy’n cyfoethogi’r ddarpariaeth lles ymhellach. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ystod eang o weithgareddau allgyrsiol mewn chwaraeon, drama a cherddoriaeth, sy’n cael eu mynychu’n dda ac yn cyfrannu’n gadarnhaol at eu lles cyffredinol.

Mae diwylliant o ddiogelu yn treiddio drwy waith a bywyd yr ysgol, ac mae hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg i’r holl staff. Mae’r ysgol wedi sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon am ddisgyblion unigol, gan sicrhau bod gweithdrefnau’n cael eu dilyn yn gyson ac yn effeithiol. Mae hyfforddiant clir a rheolaidd i staff ar bob lefel ar faterion diogelu, gan gynnwys atal radicaliaeth ac adnabod arwyddion posibl o gam-drin, sy’n cyfrannu at ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau. Mae’r ysgol yn gweithredu’n rhagweithiol ar draws y cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw’n ddiogel mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae cydweithio pwrpasol ag asiantaethau allanol a’r awdurdod lleol i gefnogi lles a diogelwch disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at greu diwylliant cadarnhaol lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn dangos parch tuag at eraill.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer monitro a chefnogi presenoldeb disgyblion. Mae’r staff yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd gan bwysleisio pwysigrwydd ac effaith mynychu’r ysgol yn ddyddiol. Mae’r ysgol yn adnabod a thargedu presenoldeb grwpiau o ddisgyblion ac yn cydweithio â’r tîm presenoldeb ac asiantaethau allanol i ddarparu ymyraethau addas. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol, gan gynnwys cyfraddau disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim uwchlaw’r hyn a welir mewn ysgolion tebyg.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn rhagorol. Maent yn dangos medrau cymdeithasol cryf, yn trin oedolion a’i gilydd â pharch a chwrteisi ac yn cyfarch ymwelwyr yn serchog, gan ddangos balchder yn eu hysgol, eu gwaith a’r Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda yn y gwersi. Symudant o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol a pharchus. Mae staff yn cynnal perthynas

weithio gadarnhaol a chynhaliol â'r disgyblion. Maent yn gweithredu systemau cyson a theg er mwyn cynnal a chefnogi ymddygiad disgyblion.

### Ciplun: Casglu barn disgyblion

Ceir ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi eu barn ar faterion sy'n ymwneud â lles mewn modd agored a gonest. Er enghraifft, mae system 'Fy Llais' yn cynnig llwyfan diogel, ac os dymunir, dienw, i ddisgyblion rannu safbwyntiau a chodi pryderon. Yn ychwanegol, mae'r drefn 'Sgwrs am Les' yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar y ddarpariaeth. Caiff y wybodaeth a gesglir ei dadansoddi a'i hystyried yn ofalus gan staff. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion. Mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygu diwylliant agored a chefnogol. Mae parodrwydd yr ysgol i wrando yn cryfhau ymdeimlad disgyblion o gael eu clywed ac yn atgyfnerthu'r ethos cadarn o ddiogelu sy'n treiddio ar draws yr ysgol.

Mae llais y disgybl yn gryfder amlwg yn yr ysgol ac yn llywio agweddau pwysig ar ei gwaith. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain drwy'r senedd ysgol, ei his-bwyllgorau, gweithgareddau allgyrsiol a fforymau blwyddyn. Mae cynrychiolwyr yn cyfrannu'n aeddfed at drafodaethau ac yn sicrhau bod safbwyntiau disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol, gan gynnwys agweddau ar benodi staff a gwelliannau i gyfleusterau. Mae'r senedd gwrth-hiliaeth wedi chwarae rhan bwysig wrth godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â grwpiau lleiafrifol ac wedi cyd-gynllunio datganiad gwrth-hiliol cryf ar ran yr ysgol. Yn yr un modd, mae'r pwyllgor ymbweru merched wedi datblygu medrau arwain effeithiol drwy brosiectau cymunedol, gan gynnwys cydweithio ag ysgolion cynradd partner a chymryd rhan mewn profiadau rhyngwladol gwerthfawr. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion hŷn yn y chweched dosbarth yn cefnogi eu cyfoedion iau drwy weithredu fel mentoriaid. Maent yn arwain sesiynau ymyrraeth wythnosol i gefnogi disgyblion gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd, gan feithrin ymdeimlad cryf o gymuned a chyfrifoldeb ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysol a chefnogol at ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, gyda'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddiried yn y trefniadau sydd ar waith. Maent yn cael eu hannog i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol, ac yn elwa o ystod o weithgareddau allgyrsiol, profiadau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, cyrsiau galwedigaethol a chyfleoedd ôl-16. Mae gan y tîm ADY adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau datblygu unigol perthnasol sy'n cael eu hadolygu'n briodol mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol, rhieni a disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo annibyniaeth, dycnwch a sgiliau bywyd ar gyfer disgyblion ag ADY, trwy, er enghraifft, hyfforddiant teithio, medrau cyflogadwyedd a chefnogaeth gan wasanaethau ieuenctid. Mae staff ar draws yr ysgol yn elwa ar ddysgu proffesiynol perthnasol yn gysylltiedig ag ADY ac mae crynodeb defnyddiol o anghenion dysgu y disgyblion ar gael i'r staff. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser

yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon miniog i sicrhau bod eu cynllunio yn diwallu anghenion unigol disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio data ar lythrennedd, rhifedd a lles emosiynol er mwyn llywio'r ymyraethau mwyaf addas. Mae trefniadau tracio a monitro yn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan alluogi'r tîm i addasu cefnogaeth, yn ôl yr angen. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r broses bontio gryf, gan gynyddu hyder a lleihau pryderon disgyblion ADY wrth symud rhwng cyfnodau addysg.

Yng Nghanolfan Ethni, mae ethos cryf o berthyn ymysg y disgyblion ac mae staff yn cynnig gofal lles o ansawdd uchel. Mae system 'Ffordd i Ffynnu' yn helpu'r disgyblion i ddeall eu teimladau ac yn cael ei defnyddio'n bwrpasol o fewn y Ganolfan ac wrth i ddisgyblion fynychu gwersi prif ffrwd. Trwy hyn, mae staff yn gallu adnabod ac ymyrryd yn amserol pan mae rhywbeth o'i le. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i reoli eu hemosiynau a thrin eraill yn garedig a sensitif. Mae cysylltiadau cyson â rhieni disgyblion y ganolfan trwy ap pwrpasol, cyfarfodydd rhieni a chyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth gweithredol a'r tîm arwain yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Maent yn angerddol wrth arddel y weledigaeth o ddatblygu dinasyddion cyflawn ac yn ei rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Maent yn creu awyrgylch ddysgu gynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r tîm arwain wedi eu dosrannu'n synhwyrol ac yn cyd-fynd yn gyffredinol â'u cefndir ac arbenigedd. Mae pob aelod yn ymgymryd â'u gwaith yn gadarnhaol a chydag angerdd. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio'n agos ac yn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws yr ysgol, gan gynnwys o fewn Canolfan Ethni.

Mae'r berthynas rhwng yr arweinwyr canol a'r tîm arwain yn gadarnhaol ac mae llinellau atebolrwydd wedi eu diffinio'n glir. Mae uwch arweinwyr yn dwyn rheolwyr canol i gyfrif yn dda trwy gyfarfodydd rheolaeth llinell. Mae cyfleoedd buddiol yn y cyfarfodydd hyn i drafod cyflawniad disgyblion a chynnydd tuag at flaenoriaethau gwella. Mae'r tîm arwain yn gosod disgwyliadau priodol i arweinwyr canol i weithredu'n amserol. Mae rheolwyr canol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r her a ddarperir ac, yn eu tro, maent yn dwyn aelodau o'u meysydd cyfrifoldeb i gyfrif yn briodol.

Mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer adolygiad datblygiad proffesiynol staff. Mae amcanion staff yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol, yr adran ac â datblygiad personol. Nodir yn glir pa ddysgu proffesiynol sydd ei angen ar unigolion. Mae'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn eang a phwrpasol a rhoddir ffocws cadarn ar ddatblygu dysgu ac addysgu. Mae rhaglen werthfawr o hyfforddiant ar gyfer staff addysgu'r ysgol. Er

enghraifft, mae 'Rhaglen Addysgu Glantaf' yn rhoi cyfleoedd i staff ymchwilio i ddatblygu addysgeg ac i rannu arferion da. O ganlyniad, mae agweddau ar addysgu wedi datblygu'n gryf.

Mae gan yr ysgol galendr cynhwysfawr o weithgareddau hunanwerthuso addas. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith, dadansoddiadau data, holiaduron a chyfleoedd i ddisgyblion rannu eu barn. Mae gweithgareddau 'Sgwrs am Les' a 'Sgwrs am Waith' yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar waith yr ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i staff ac arweinwyr ar bob lefel ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn edrych yn ddigon miniog ar effaith y ddarpariaeth a'r addysgu ar ddysgu'r disgyblion. Drwyddi draw, mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol gan gynnwys y rhai hynny i ddatblygu addysgu effeithiol. Dros amser, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a sicrhau addysgu a dysgu cryf.

Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol megis lliniaru effaith tlodi, hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu medrau darllen disgyblion. Maent yn darparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd o deuluoedd incwm isel. Maent yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas iddynt a bod mynediad cyfartal i'r cwricwlwm.

Cefnogir disgyblion a'u teuluoedd ymhellach trwy ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ariannu teithiau addysgol a darparu profiadau cyfartal. Mae arweinwyr yn gwerthuso defnydd ac effaith y grant ar safonau disgyblion yn drylwyr. O ganlyniad, mae perfformiad a phresenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn well na'u cyffelyb mewn ysgolion tebyg.

Mae arweinwyr yn rheoli a monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus iawn gan ystyried os yw unrhyw wariant yn fforddiadwy. Sicrheir defnydd priodol o grantiau eraill ac maent yn ddarbodus wrth chwilio am ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau gwahanol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogwyr brwd o'r ysgol ac yn uchelgeisiol o ran sicrhau'r gorau i ddisgyblion. Maent yn wybodus am waith yr ysgol ar sail y wybodaeth o'u gweithgarwch arfarnu eu hunain a'r hyn a rennir gan y tîm arwain. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal teithiau dysgu neu i gefnogi dathliadau a digwyddiadau eraill. Yn gyffredinol, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o sut mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu'r Gymraeg, diogelu disgyblion a lleihau effaith tlodi. Serch hynny, nid ydynt yn sicrhau bod gofynion Cwricwlwm i Gymru yn cael eu diwallu'n llawn erbyn diwedd Blwyddyn 9.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn briodol trwy gyfuniad o gylchlythyrau a defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ac yn dathlu llwyddiannau disgyblion. Cesglir barn rhieni trwy holiaduron achlysurol ac yn ôl y galw.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2026